



info@ceredrotian.com

01974 821511

Rhifyn 11

Croeso!

Megis dim ond diwrnodau sydd nawr cyn bydd Clwb Trotian Tregaron yn agor tymor rasio BHRC, dydd Sul 5 Mai. Wedi gaeaf hir, mae'n hen bryd i ni gyd fod nôl ar y trac. Mae yna amryw o ddiwrnodau gweithio allan wedi cynnal led led y wlad ac mae Clwb Rasio Harnais Iwerddon eisoes wedi dechrau eu tymor gyda charden o 6 ras ym Mhortmanock dydd Sul diwethaf. Er mwyn dechrau'r tymor ac i roi ambell i dip mi fydd y cylch lythyr yma yn canolbwyntio ar geffylau i wyllo allan am yn ystod 2013.

Beth sydd wedi bod yn digwydd?

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael cyfle i weld yr item ar rasio harnais a ymddangosodd yn ddiweddar yn Y Western Mail. Cafwyd ymateb da i'r dudalen a mawr yw'r gobaith fydd wn yn item blynddol. Cafodd Ceredrotian tipyn o sylw hefyd yn y cylchgrawn Welsh Rider, yn cynnwys gwybodaeth ac awgrymiadau ar sut i ddechrau ymwneud a'r gamp. Mi fydd mwy am rasio Harnais yn rhifyn Mis Gorffennaf o Welsh Rider.



Yn amserol mae Clwb Trotian Tregaron wedi bod yn cael sylw amrywiol yn y cyfryngai yn cynnwys erthygl yn y papur lleol y Cambrian News.

Cofiwch am ein cystadleuaeth 10 i ddilyn, sydd werth £100 i'r enillydd i'w wario yn un o siopau Wynnstay. Mae yna nifer o siopau Wynnstay ar hyd y wlad, yn cynnwys 7 yn Swydd Amwythig, 2 yn Swydd Stafford ac un yn Swydd Gaerhirfryn, Worcestershire, Swydd Henffordd, Swydd Caerloyw, Swydd Warig a 7 yng

Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Mae pob siop yn cadw amrywiaeth o nwyddau i geffylau (a digon o bethau arall) felly digon i chi cael gwario eich enillion. Mi rydym wedi ymestyn y dyddiad cau hyd **Ddydd Gwener 3 Mai**, cyfle i chi gael cip olwg ar garden Tregaron cyn eich bod yn gwneud eich dewis. Cofiwch fod yna fonws o 10 pwynt i enillydd ffeinal Handicap y Gwanwyn.

Ar yr 18 a 19 o'r mis yma, mi fydd Ceredrotian yn ymweld â Llanellwedd I'r Wyl Tyddyn a Gardd. Mae'r digwyddiad yn denu tua 25,000 o ymwelwyr felly cyfle perffaith i gyflwyno rasio harnais i gynulleidfa newydd. Os I chi yn mynd i'r sioe - galwch heibio i weud helo i griw Ceredrotian yn Neuadd Forgannwg.

Ras gyntaf yn Nhregaron am 2 o'r gloch. Mynediad l oedolion yn £10 a phlant dan 16 am ddim. Edrychwn 'mlaen i weld chi yna i fwynhau'r 13 ras sydd ar eich cyfer.

Alan Jones

MY MISSION (The Cammissioner / My Silv)

Roeddwn yn ei hoffi hi llynedd, ond roedd hi braidd yn anaeddfed. Erbyn eleni mae'n 4 oed a llawer iawn yn gryfach

Rhys Evans

BILLY ELLIOT (Sable Matters / Carousel)

Mae'n dechrau'r tymor mewn gradd isel (gradd 1) ac rwy'n credo bod ganddo'r gallu i fod yn geffyl da iawn.

Emma Langford

CAMDEN KINKI (Yankee Lariat / Penn Kinki Touch)

The brynom ni'r eboles yma dim ond am ein bod ni wedi hyfforddi ei mam. Fe enillodd hi'r Breeders Crown llynedd wedi penderfyniad hwyr iawn i roi hi yn y ras. Erbyn eleni mae hi wedi datblygu a dod yn ei blaen yn arbennig ac yn gweithio'n grêt. Mae'n cymryd popeth fel mae'n dod, a jyst gobeithio bydd hi'n cymryd i ennill mor hawdd hefyd!

Geoff Dunne

DOONBEG (Camluck / St Matricks Way).



Wedi dychwelyd nôl i'w waith ac yn cael ei hyfforddi i ennill y Filtir Drydanol yn Nhregaron.

Mike Evans

GD'S BARRACA (Daylon Alert / GD's Twin)

Roeddwn yn edmygu perfformiadau ei chwaer GDs Storm. A gan mae hwn yw'r ebol gwryw cyntaf allan o'r gaseg mae ganddo'r potential i fod yn well na'i chwaer.

David Bevan

EPYNT SOPHIE (Hasty Hall / Heather Way)

Hon yw'r eboles rwy'n edrych 'mlaen i fwyaf eleni gan hon yw'r cyntaf i ni fagu ein hunain. Cafodd hi ei geni 2 ddiwrnod ar ôl ein merch, ac fe wnaethom ni phenderfyni alw'r 2 yn Sophie.

Tadgh Murphy

I B GUCCI (Best Sunshine / Annies Lady)

Rwy'n mawr obeithio y bydd yn dilyn Ian ar y tymor llwyddiannus cafodd e' llynedd. Mae wedi ei fagu wrth fab i Cam Best ac fel arfer ma' nhw yn gwella gydag oedran, felly os oes 'na chwaneg fwy o welliant wedyn gobeithio fod 'na fuddugoliaeth neu 2 arall ynddo.

Neville Thomas

RHYDS TEMPO (Hasty Hall / Brown Shoes)

Fe ddangosodd hi dipyn o addewid llynedd fel eboles 2 a'r gobaith yw fydd hi yn plesio eleni fel eboles 3.

Gregor Menzies

GD'S BEAUTY (The Firepan / Age Before Beauty)

Rwy'n hyfforddi 7 ceffyl eleni ac mae gennyf eboles 2 flwydd nes i brynu yn Builth ym mis Hydref ac rwy'n gyffroes iawn amdani gan ei bod yn dod yn ei blaen yn dda. Rwy wedi bod yn ffodus i hyfforddi ambell i bencampwr 2 oed ac mae hon llawn cystal â nhw.

Colin Bevan

M C KELVIE (Village Marquis / MC Scooter)

Mae e'n hanner brawd i McCaw, yn fawr ac yn gryf sydd ofn dim byd. Mae'n gwybod beth i wneud a ma fwy gyda fe i roi.

William Flanagan

MEADOWBRANCH PAIGE (Artsplace / Over The Clouds)

Wedi cael blwyddyn bant llynedd, mae'r arwyddion yn dda eleni ac rydym yn disgwyl pethau mawr wrthi eleni

Carl Davies

ANY DREAM WILL DO (Gothic Dream / Mary Blue)

Mae'n geffyl 6 oed ac yn hyfforddi'n dda er bod ambell i gwirc 'da fe, ond ar ei ddydd mae'r gallu ganddo i rasio unrhyw un.

Jamie Davies

BRYWINS VIVIAN (Gothic Dream / Vociferous)

Mae hi'n hanner chwaer i Brywins Victory a oedd yn llwyddianus iawn yn 2011. Mae'n eboles gref sy'n dangos digon o botensial ar hyn o bryd.

Hughie Burton

BLUE BOP A LOOLA (Todays Man / Blue Moon)

Mae' gaseg rasio brwd sydd wedi profi ei hun ac rwy'n credo ei bod ar farc handicap da, lle fedrith hi ennill

sawl ras arall. Mi ddylai hi wella 'da oedran fel ei brawd a chwaer Moonshine a Blue Russian. Rwy wedi gwerthu ei brawd Blue Incredible, ond rwy'n credo taw fe yw'r un i wyllo gan fy mod yn gwybod pa mor dda yw e'.

Michael O'Mahony

COMPLY OR DIE (Hasty Hall / Bon Chere)

Fe ddechreuodd e'r tymor diwethaf yn dda ond gan ei fod wedi bod yn gwaith ers mis Tachwedd fe gymerodd ei hol ac fe gollodd ddiddordeb erbyn diwedd y tymor. Mae wedi cael cyfnod da bant dros y gaeaf ac mae'n hyfforddi'n dda ar hyn o bryd. Eboles fach arall sydd heb rasio eto yw Material Sally, gall fod yn un i wyllo.

Alexis Laidler

HILLTOP NANSBOY (Southwest Art / Hawaiian Nani) and MERRINGTON MOTION (The Preacher Pan / What A Commotion)

Rwy'n ffodus i gael sawl ceffyl rwy'n gyffroes am , fel Stamp Hill wedi iddo dorri record ceffylau 2 oed' Stoneriggs Mystery am resymau amlwg a Springhill Alibi wedi iddo ennill 5 allan o 5 ac mi fydd yn ddiddorol gweld pa mor bell y gall e fynd. Mae 'na gwpwl arall na fydd bobl wedi clywed am eto sydd yn creu argraff yma sef Hilltop Nansboy, sy'n gwneud ei ymddangosiad cyntaf yn Nhregaron. Wedyn mae yna eboles rydw i wedi magu fy hun sef Merrington Motion. Hi yw'r eboles gyntaf allan o chwaer llawn i Laneside Lexus a gobeithio y bydd hi yn medru dilyn yn hol traed ei modryb.

